Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

# Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil Tanwydd Hedfan Cynaliadwy

Gorffennaf 2025

# 1. Cefndir

**1.** Cyflwynwyd y Bil Tanwydd Hedfan Cynaliadwy[1] (y Bil) yn Nhŷ'r Cyffredin ar 14 Mai 2025. Noddir y Bil gan yr Adran Drafnidiaeth.

**2.** Yn y Nodiadau Esboniadol i'r Bil fel y'i cyflwynwyd, nodir fel a ganlyn:

> *"The Sustainable Aviation Fuel Bill introduces legislative measures to implement a revenue certainty mechanism to support sustainable aviation fuel (SAF) production in the UK.*
>
> *The Bill will enable the Secretary of State to designate a counterparty that is wholly owned by government and direct them to enter into private law contracts with SAF producers, guaranteeing a price for the sale of eligible SAF over a period."*[2]

**3.** Mae enw hir y Bil yn nodi ei fod yn Fil i wneud darpariaeth am danwydd hedfan cynaliadwy.

**4.** Ar yr adeg y cytunwyd ar yr adroddiad hwn, roedd y cyfnod Pwyllgor yn Nhŷ'r Cyffredin i fod i ddechrau ar 15 Gorffennaf 2025 ac roedd disgwyl i'r Pwyllgor Biliau Cyhoeddus gwblhau ei waith erbyn 22 Gorffennaf 2025.

## Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru

**5.** Mae Rheolau Sefydlog 29.1 a 29.2 yn darparu bod memorandwm cydsyniad deddfwriaethol yn ofynnol pan fydd Bil perthnasol sydd gerbron Senedd y DU yn gwneud darpariaeth o ran Cymru sy'n rhoi sylw i faterion datganoledig.

**6.** Ar 9 Mehefin 2025, gosododd Rebecca Evans AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio (yr Ysgrifennydd Cabinet), Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol (y Memorandwm) mewn cysylltiad â'r Bil gerbron y Senedd.[3]

---

[1] Y Bil Tanwydd Hedfan Cynaliadwy, fel y'i cyflwynwyd (Bil 240) [Saesneg yn unig]
[2] Nodiadau Esboniadol i'r Bil, fel y'i cyflwynwyd, paragraffau 1 a 2 [Saesneg yn unig]
[3] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Tanwydd Hedfan Cynaliadwy, 9 Mehefin 2025

**7.** Cytunodd y Pwyllgor Busnes y dylai'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad a Phwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith gyflwyno adroddiad ar y Memorandwm erbyn 26 Medi 2025.[4]

## Darpariaethau y mae angen cydsyniad y Senedd ar eu cyfer

**8.** Barn Llywodraeth Cymru yw bod angen cydsyniad ar gyfer:

- cymal 1 - Cyfarwyddyd i gynnig contract sicrwydd refeniw;
- cymal 2 - Hysbysiad o gyfarwyddydau a dirymu;
- cymal 3 - Cofrestru a chyhoeddi contractau;
- cymal 4 - Dynodi gwrthbarti;
- cymal 5 - Cynlluniau trosglwyddo;
- cymal 6 - Ardoll ar gyflenwyr;
- cymal 7 - Cyllid cyfochrog ar gyfer ardoll;
- cymal 8 - Gweinyddu etc ardoll ac anghydfodau;
- cymal 9 - Cyfrifo neu benderfynu materion o dan reoliadau ardoll;
- cymal 10 - Talu cyllid dros ben i dalwyr ardoll;
- cymal 11 - Cosbau ariannol (gan gynnwys yr Atodlen, sy'n gwneud darpariaeth bellach ar gyfer cosbau ariannol);
- cymal 12 - Pŵer i gyfarwyddo gwrthbarti dynodedig;
- cymal 13 - Gwybodaeth a chyngor;
- cymal 14 - Cymorth ariannol ar gyfer gwrthbarti dynodedig;
- cymal 15 - Rheoliadau.[5]

**9.** Mae Llywodraeth Cymru yn ystyried bod cymalau 1 i 5 a 10 i 15 yn ymwneud â diogelu'r amgylchedd a datblygu economaidd a'u bod felly yn rhoi sylw i faterion datganoledig. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn ystyried bod cymalau 6

[4] Y Pwyllgor Busnes, Amserlen ar gyfer ystyried: Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Tanwydd Hedfan Cynaliadwy, Mehefin 2025
[5] Y Memorandwm, paragraffau 9 i 24

i 9 yn ymwneud â gweithredu'r darpariaethau yn y cymalau a restrir uchod ac, felly, mae cymalau 6 i 9 hefyd yn rhoi sylw i faterion datganoledig ac yn bodloni'r prawf yn Rheol Sefydlog 29.[6]

**10.** O ran barn Llywodraeth y DU ar yr angen am gydsyniad, mae'r Ysgrifennydd Cabinet yn datgan yn y Memorandwm:

> *"Mae Llywodraeth y DU yn cytuno bod angen LCM ar gyfer cymalau 1, 2, 3, 4, 5, 12, 13, 14, a 15, yn ogystal â rhai agweddau ar gymalau 10 ac 11.*
>
> *Fodd bynnag, nid yw Llywodraeth y DU yn meddwl bod angen LCM ar gyfer cymalau 6, 7, 8 a 9, a rhai agweddau ar gymalau 10 ac 11. Serch hynny, am y rhesymau a nodir ym mharagraffau 15-20, credaf mai'r ddadl gryfach yw eu bod yn bodloni'r prawf yn RhS29 ac felly rwy'n gosod LCM mewn perthynas â'r darpariaethau hynny."*[7]

**11.** Mae'r Nodiadau Esboniadol sy'n cyd-fynd â'r Bil yn nodi bod Llywodraeth y DU o'r farn bod angen cydsyniad y Senedd hefyd ar gyfer cymalau 16 i 19. Mae'r cymalau hyn yn gwneud y ddarpariaeth a ganlyn:[8]

- cymal 16 - Dehongli;
- cymal 17 - Rhychwant;
- cymal 18 - Cychwyn;
- cymal 19 - Enw byr.

## Pwerau dirprwyedig

**12.** Mae'r Bil yn creu ac yn dirprwyo'r pwerau gwneud rheoliadau a ganlyn i'r Ysgrifennydd Gwladol:

- cymal 3 - gall yr Ysgrifennydd Gwladol drwy reoliadau ei gwneud yn ofynnol i'r gwrthbarti dynodedig wneud fel a ganlyn:

[6] Y Memorandwm, paragraffau 9 i 24
[7] Y Memorandwm, paragraffau 25 a 26
[8] Nodiadau Esboniadol i'r Bil, Atodiad A - Rhychwant tiriogaethol a chymhwyso yn y Deyrnas Unedig

(i) cynnal cofrestr o wybodaeth mewn perthynas â chontractau sicrwydd refeniw, a

(ii) cyhoeddi contractau sicrwydd refeniw neu fanylion amdanynt;

- cymal 6 - gall yr Ysgrifennydd Gwladol drwy reoliadau ei gwneud yn ofynnol i gyflenwyr Tanwydd Hedfan Cynaliadwy dalu ardoll i'r gwrthbarti dynodedig er mwyn galluogi'r gwrthbarti i dalu:

  (i) cost taliadau o dan y contractau sicrwydd refeniw, a

  (ii) costau eraill yr eir iddynt o dan y Ddeddf hon;

- cymal 10 - gall yr Ysgrifennydd Gwladol drwy reoliadau:

  (i) ei gwneud yn ofynnol i'r gwrthbarti dynodedig, os oes ganddo gyllid dros ben, wneud taliadau i'r personau sydd wedi talu'r ardoll, a

  (ii) ei gwneud yn ofynnol i'r person sy'n cael taliad o'r fath sicrhau bod ei gwsmeriaid yn cael unrhyw fuddion o'r taliad a bennir neu a benderfynir yn unol â'r rheoliadau.

**13.** Nid yw'r Bil yn dirprwyo unrhyw bwerau gwneud rheoliadau i Weinidogion Cymru.

## Safbwynt Llywodraeth Cymru

**14.** Ym mharagraff 7 o'r Memorandwm, mae'r Ysgrifennydd Cabinet yn nodi bod swyddogion Llywodraeth Cymru wedi bod yn ymgysylltu â'r Adran Drafnidiaeth ers mis Rhagfyr 2024 i drafod cynnwys ac amseriad cyflwyno'r Bil, a bod Llywodraeth Cymru wedi cael copi terfynol o'r Bil ar 8 Mai, wythnos cyn ei gyflwyno'n ffurfiol yn Nhŷ'r Cyffredin.

**15.** Ym mharagraff 8 o'r Memorandwm, mae'r Ysgrifennydd Cabinet yn nodi bod Llywodraeth y DU wedi cynnal ymgynghoriad cyhoeddus ar fecanwaith sicrwydd refeniw tanwydd hedfan cynaliadwy ym mis Ebrill/Mehefin 2024[9], ac yn cadarnhau na ddarparodd Llywodraeth Cymru ymateb ffurfiol i'r ymgynghoriad.

[9] Ymgynghoriad Llywodraeth y DU, Mecanwaith sicrwydd refeniw tanwydd hedfan cynaliadwy: opsiynau sicrwydd refeniw

**16.** Yn y Memorandwm, mae'r Ysgrifennydd Cabinet yn mynd ymlaen i ddatgan:

> *"Mae polisi hedfanaeth yn fater a gedwir yn ôl i Lywodraeth y DU. Mae natur hedfan yn y DU yn golygu bod llawer o deithwyr o Gymru yn defnyddio, neu'n gallu dewis defnyddio, meysydd awyr yn Lloegr sydd â goblygiadau i effeithiolrwydd posibl polisïau yng Nghymru. (…)*
>
> *Rydym yn ystyried sut y gall Cymru gefnogi datblygu a mabwysiadu technolegau hedfan mwy cynaliadwy orau. (…)*
>
> *… rydym yn gefnogol o'r Bil, gan ei fod yn ystyried bod SAF yn ffordd o leihau allyriadau carbon dros dro, wrth i'r diwydiant fynd ati i ddatblygu awyrennau allyriadau sero newydd, megis awyrennau sy'n defnyddio tanwydd hydrogen a thrydan."*[10]

**17.** Daw'r Ysgrifennydd Cabinet i'r casgliad a ganlyn:

> *"… mae'n briodol ymdrin â'r darpariaethau hyn yn y Bil hwn ar gyfer y DU gan fod Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i weithio gyda llywodraethau eraill yn y DU i gyflawni camau polisi cydgysylltiedig a fydd yn cyflawni ein targedau o ran [l]leihau allyriadau. Mae datgarboneiddio hedfan yn un o'n heriau byd-eang mwyaf ac mae hyn yn gofyn am weithredu ar lefel y DU gyfan trwy Fil ar gyfer y DU."*[11]

**18.** Felly, mae'r Ysgrifennydd Cabinet yn argymell bod y Senedd yn rhoi ei chydsyniad i'r darpariaethau a restrir yn y Memorandwm.[12]

# 2. Ystyriaeth y Pwyllgor

**19.** Gwnaethom drafod y Memorandwm yn ein cyfarfod ar 7 Gorffennaf 2025[13], a gwnaethom drafod a chytuno ar ein hadroddiad yn ein cyfarfod ar 14 Gorffennaf 2025.[14]

---

[10] Y Memorandwm, paragraffau 29, 31 a 34
[11] Y Memorandwm, paragraff 36
[12] Y Memorandwm, paragraff 37
[13] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 7 Gorffennaf 2025
[14] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 14 Gorffennaf 2025

## Ein barn ni

### Cydsyniad deddfwriaethol

**20.** Rydym yn nodi asesiad Llywodraeth Cymru o'r darpariaethau yn y Bil y mae angen cydsyniad y Senedd ar eu cyfer, fel y'i nodir yn y Memorandwm.

**21.** Nodwn hefyd safbwynt Llywodraeth y DU o ran cydsyniad.

**Casgliad 1.** Rydym yn cytuno ag asesiad Llywodraeth Cymru, fel y'i nodir yn y Memorandwm, o'r darpariaethau yn y Bil y mae angen cydsyniad y Senedd ar eu cyfer yn unol â Rheol Sefydlog 29; mae hyn yn ddarostyngedig i'n barn ni a nodir yng nghasgliad 2.

**22.** Er ein bod yn cytuno â Llywodraeth Cymru y dylid ceisio cydsyniad y Senedd ar gyfer cymalau 6 i 9 o'r Bil, credwn fod rhesymeg Llywodraeth Cymru dros geisio cydsyniad ar gyfer y cymalau hyn – sef eu bod yn ymwneud â'r cymalau eraill a restrir yn y Memorandwm ac sy'n rhoi sylw i faterion datganoledig neu'n rhoi effaith iddynt – yn rhesymeg a all fod yr un mor gymwys i gymalau 16 i 19 o'r Bil. Nid ydym yn glir pa farn sydd gan Lywodraeth Cymru a fyddai'n gwneud i'r Ysgrifennydd Cabinet ystyried bod cymalau 16 i 19 mewn rhyw ffordd yn annibynnol ac felly nad ydynt yn rhoi sylw i faterion datganoledig.

**Casgliad 2.** Ein barn ni yw bod cymalau 1 i 19 ac Atodlen 1 yn rhoi sylw i faterion datganoledig ac felly yn bodloni'r prawf yn Rheol Sefydlog 29. Felly, rydym yn ystyried y dylid ceisio cydsyniad y Senedd ar gyfer y Bil cyfan.

### Gweithio rhynglywodraethol

**23.** Nodwn fod yr Ysgrifennydd Cabinet yn nodi yn y Memorandwm fod Llywodraeth Cymru wedi bod yn ymgysylltu â'r Adran Drafnidiaeth ers mis Rhagfyr 2024 i drafod cynnwys ac amseriad cyflwyno'r Bil, ac mai canlyniad hynny oedd bod Llywodraeth Cymru wedi cael copi terfynol o'r Bil wythnos cyn ei gyflwyno'n ffurfiol yn Nhŷ'r Cyffredin.

**24.** Rydym hefyd yn nodi bod gweithio gyda llywodraethau eraill yn y DU i gyflawni camau polisi cydgysylltiedig a fydd yn cyflawni targedau priodol o ran lleihau allyriadau yn cael ei nodi fel un o'r rhesymau dros gynnwys darpariaeth o fewn Bil Llywodraeth y DU sy'n mynd drwy Senedd y DU, ochr yn ochr â natur

polisi hedfan a gedwir yn ôl a'r angen am ddatgarboneiddio drwy weithredu ar lefel y DU.

## Pwerau dirprwyedig

**25.** Nodwn nad yw'r Bil yn dirprwyo unrhyw bwerau gwneud rheoliadau i Weinidogion Cymru.

**26.** Nodwn hefyd fod pwerau dirprwyedig yn cael eu rhoi i'r Ysgrifennydd Gwladol i weithredu mewn meysydd sy'n rhoi sylw i faterion datganoledig.